

Gwrandawriad cyn penodi: Cadeirydd Trafnidiaeth Cymru

Mehefin 2025

1. Cyflwyniad

Y broses o gynnal gwrandawriad cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae'r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac yn gyfle i lunio a llywio llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn eu defnyddio. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am roi sicrwydd annibynnol bod penodiadau yn cydymffurfio â'r Cod.¹

2. Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach ar y gwaith craffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno.

3. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer

¹ Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus



penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi.

4. Er mai mater i Weinidogion Cymru, yn y pen draw, yw penodiadau, caiff un o Bwyllgorau'r Senedd wneud argymhellion mewn perthynas â'r penodiad, a rhaid i Weinidogion Cymru ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r penodiad.

2. Trafnidiaeth Cymru

5. Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn 2015. Mae'n gwmni di-elw, sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. I ddechrau, rôl TrC oedd caffael a rheoli'r fasnachfaint rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae ei rôl wedi tyfu'n sylweddol. Erbyn hyn, mae'n gyfrifol am reoli'n effeithiol, cyllideb gyfalaf a refeniw gyfunol sy'n agosáu at £1bn y flwyddyn, ac mae ganddo tua 4,000 o weithwyr.²

6. TrC yw rhiant gwmni grŵp cwmnïau TrC. Mae'n gynghorydd arbenigol i Lywodraeth Cymru, ac yn eiriolwr ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Nododd ei adroddiad blynyddol diweddaraf ar gyfer 2023-24 fod y sefydliad yn cynnwys pedwar is-gwmni gweithredol.³

- **Rheilffyrdd TrC Cyf:** sy'n gweithredu gwasanaethau rheilffordd ac yn rheoli 248 o orsafoedd. Fe'i crëwyd yn wreiddiol fel gweithredwr dewis olaf Llywodraeth Cymru, gan gymryd yr awenau oddi wrth KeolisAmey ym mis Chwefror 2021.
- **Rheilffyrdd Pullman Cyf:** sy'n darparu arbenigedd technegol ar reilffyrdd, atebion peirianeg arbenigol, uwchraddio ac atgyweirio cerbydau, adnewyddu a chynnal a chadw yr holl gerbydau rheilffordd i deithwyr a nwyddau.
- **Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf:** menter ar y cyd rhwng Trafnidiaeth Cymru a Keolis ac Amey, lle mai TrC yw'r prif gyfranddaliwr. Mae'r cwmni'n darparu arbenigedd a gallu arbenigol i hybu arloesedd a newid ar gyfer grŵp ehangach Trafnidiaeth Cymru.

² Llywodraeth Cymru: [Penodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Pecyn Gwybodaeth i ymgeiswyr](#), Chwefror 2025.

³ Trafnidiaeth Cymru: [Adroddiad Blynyddol 2023/24](#).

- **TrC Ffeibr Cyf:** sefydlwyd yn 2024 i wneud defnydd masnachol o gapasiti ffibr sbâr a osodwyd i gario cyfathrebiadau sydd eu hangen i gynnal Llinellau Craidd y Cymoedd.

Strategaeth gorfforaethol a chynllun busnes

7. Mae Strategaeth Gorfforaethol gyfredol TrC yn cwmpasu 2021-26, sef cyfnod y Senedd bresennol. Mae'n nodi pedair blaenoriaeth gorfforaethol:

- Creu rhwydwaith trafndiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol
- datblygu profiad sy'n gwella trwy'r adeg – rhoi'r cwsmer wrth galon yr hyn y mae TrC ei wneud;
- darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio; a hefyd
- adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni pwrpas TrC.⁴

8. Ochr yn ochr â hyn, mae TrC wedi cyhoeddi ei Gynllun Busnes ar gyfer 2025-26.⁵ Gyda'i gilydd mae'r dogfennau hyn yn amlygu hyd a lled rôl TrC.

9. Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu cyllideb gyfan o £716 miliwn (£432 miliwn o refeniw a £284 miliwn o gyfalaf) ar gyfer 2025-26. Er bod tua 85 y cant o'r gyllideb hon yn canolbwyntio ar ei chyfrifoldebau rheilffyrdd ar hyn o bryd, mae hefyd yn ariannu gwaith mewn amrywiaeth o feysydd eraill, gan gynnwys bysiau, cynllunio trafndiaeth ranbarthol, gwefru cerbydau trydan, teithio llesol a gwaith ar briffyrdd ehangach.

Cyfrifoldebau Cadeirydd a Bwrdd TrC

10. Mae Cadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS (Ysgrifennydd y Cabinet) ac mae'n cael ei ddwyn i gyfrif gan y Senedd am berfformiad y Bwrdd, ac o ran llywodraethiant.⁶

11. Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth a diwylliant y sefydliad. Cadeirydd TrC sy'n gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd ac ef yw'r rhyngwyneb allweddol rhwng Bwrdd TrC a

⁴ Trafnidiaeth Cymru: [Strategaeth Gorfforaethol 2021-2026](#).

⁵ Trafnidiaeth i Gymru: [Cynllun busnes 2025/26](#).

⁶ Llywodraeth Cymru: [Penodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Pecyn Gwybodaeth i ymgeiswyr](#), Chwefror 2025.

Gweinidogion Cymru. Bydd Cadeirydd TrC, hefyd, yn sicrhau bod polisiâu a gweithredoedd Bwrdd TrC yn cefnogi polisiâu strategol ehangach Ysgrifennydd y Cabinet, bod rôl TrC wrth gyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn cael ei chyflawni'n effeithiol a bod materion TrC yn cael eu cynnal ag uniondeb.⁷

12. Ar hyn o bryd, mae wyth aelod ar fwrdd TrC, gan gynnwys pum cyfarwyddwr anweithredol, y Cadeirydd a dau gyfarwyddwr gweithredol.⁸ Prif ddiben y Bwrdd yw sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn bodloni gofynion ei gylch gwaith fel y'i gosodwyd gan Lywodraeth Cymru, a sicrhau bod ei strategaeth yn cael ei chyflawni. Mae ei rôl fel a ganlyn:

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer TrC; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a gosod amcanion;
- darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer gwaith y sefydliad; dal y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau TrC yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol;
- monitro perfformiad i sicrhau bod TrC yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn; a
- hyrwyddo safonau heb eu hail o safbwynt cyllid cyhoeddus; arddel egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.⁹

Y broses recriwtio

13. Cafodd y Cadeirydd presennol, Scott Waddington, ei benodi'n wreiddiol ym mis Rhagfyr 2018¹⁰, ac fe gafodd ei ailbenodi am dair blynedd arall yn 2022.¹¹

14. Ar 25 Chwefror 2025, hysbysebodd Llywodraeth Cymru am Gadeirydd newydd ar gyfer TrC.

15. Cyflogwyd ymgynghorwyr recriwtio i gefnogi'r broses, gyda'r nod o ddenu cronfa fawr ac amrywiol o ymgeiswyr â'r sgiliau angenrheidiol. Yn dilyn cyfnod hysbysebu o bedair wythnos, daeth y cyfnod ar gyfer cyflwyno cais i ben ar 23 Mawrth 2025.

⁷ Llywodraeth Cymru: [Penodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Pecyn Gwybodaeth i ymgeiswyr](#), Chwefror 2025.

⁸ Trafnidiaeth Cymru (TrC) [Bwrdd Trafnidiaeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru](#).

⁹ Trafnidiaeth Cymru (TrC) [Amdanom ni: Tîm Trafnidiaeth Cymru](#).

¹⁰ Llywodraeth Cymru: [Cyhoeddi Cadeirydd newydd Trafnidiaeth Cymru](#), Rhagfyr 2025.

¹¹ Llywodraeth Cymru: [Ailbenodi Scott Waddington yn Gadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru](#), Ionawr 2022.

Manyleb y swydd a'r person

16. Nododd Llywodraeth Cymru ei disgwyliadau o ran sut y bydd y Cadeirydd yn cyflawni'r rôl yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Dyma'r prif gyfrifoldebau a restrwyd ar gyfer y Cadeirydd:

- Llunio strategaethau Bwrdd TrC, gan ddarparu arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol a sicrhau bod y Bwrdd, yn ei gyfanrwydd, yn hyrwyddo TrC;
- atgyfnerthu'r broses o drawsnewid TrC i fod yn sefydliad trafndiaeth integredig o'r safon uchaf;
- cynorthwyo'r sefydliad i ysgwyddo'r cyfrifoldebau sylweddol sy'n gysylltiedig â masnachfreinio bysiau;
- bod yn eiriolwr allanol ac yn hyrwyddwr dros TrC, gan gynrychioli barn Bwrdd TrC i'r cyhoedd, gan gynnwys ymddangosiadau posib ar y cyfryngau;
- cefnogi Trafnidiaeth Cymru i gyflawni ar gyfer pob rhanbarth o Gymru drwy'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd;
- deall pwysigrwydd a datblygu perthnasoedd economaidd trawsffiniol effeithiol;
- bod yn sensitif i faterion trafndiaeth trawsffiniol o fewn llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- chwarae rhan allweddol cyhoeddus wrth ddatblygu perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid strategol;
- arwain y cyd-gysylltu gyda Chwmnïau Gweithredu Trenau eraill a darparwyr trafndiaeth sy'n gwasanaethu Cymru;
- sicrhau fod Bwrdd TrC, wrth wneud ei benderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion rheoli ariannol a statudol a'r holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i roi sicrwydd ar faterion llywodraethu a rheolaeth ariannol a'r defnydd priodol o arian cyhoeddus;

- sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol wrth graffu ar gynnydd TrC a'i fonitro wrth gyflawni amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol, gan herio yn ôl yr angen;
- hyrwyddo'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethu; a
- goruchwyllo is-bwyllgorau'r Bwrdd a hwylusir gan NEDs i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cyflawni amcanion strategol ehangach.¹²

17. Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod holl Aelodau Bwrdd TrC yn cael gwybod yn llawn beth yw telerau eu penodiad a'u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau bod aelodau Bwrdd TrC yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar y gofynion rheoli ariannol ac adrodd sy'n berthnasol i gyrff sector cyhoeddus ac ar y gwahaniaethau sy'n gallu bodoli rhwng ymarfer yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd o sgiliau sy'n briodol i gynnal busnes TrC;
- cymryd camau cadarnhaol i sicrhau amrywiaeth wybyddol ar lefel gwneud penderfyniadau;
- mew'n achosion lle y gwneir penodiadau i swyddi gwag ar fwrdd TrC gan Ysgrifennydd y Cabinet, rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet ar anghenion TrC a'r ffordd orau y gallai'r bwrdd adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru;
- asesu perfformiad aelodau unigol o fwrdd TrC yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt â Thîm Partneriaeth TrC Llywodraeth Cymru;
- darparu cefnogaeth, arweiniad a her briodol i'r Tîm Arwain Gweithredol ac yn benodol, i'r Prif Weithredwr i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei amcanion mor effeithiol â phosibl;

¹² Llywodraeth Cymru: Penodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Pecyn Gwybodaeth i ymgeiswyr, Chwefror 2025.

- sicrhau bod Cod Ymddygiad priodol ar waith ar gyfer aelodau Bwrdd TrC, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ar fuddiannau a gwrthdaro buddiannau aelodau Bwrdd TrC, a'i fod yn cyd-fynd ag Egwyddorion Nolan;
- cymryd cyfrifoldeb dros gyfathrebu rhwng Bwrdd TrC ac Ysgrifennydd y Cabinet a darparu her ac arweiniad priodol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru; a hefyd
- sicrhau bod TrC a'i Fwrdd yn cydymffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu TrC, Cytundeb Rheoli gyda Gweinidogion Cymru, llythyr cylch gwaith gan Weinidogion Cymru, cynllun corfforaethol pum mlynedd, llythyr cyllido blynyddol a chynllun busnes blynyddol.¹³

Panel asesu

18. Y canlynol oedd aelodau'r panel asesu:

- Andrew Slade (Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth),
- Peter McDonald (Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol), (Cadeirydd);
- Ruth Conway (Dirprwy Gyfarwyddwr, Blynyddoedd Cynnar, Yr Is adran Gofal Plant a Chwarae), a
- Moawia Bin-Sufyan (Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel).

19. Hysbysodd Llywodraeth Cymru y Pwyllgor fod cyfanswm o 35 chais wedi dod i law. Argymhellodd y panel y dylid gwahodd 17 o'r 35 ymgeisydd am gyfweiliad.

20. Cynhaliwyd y cyfweiliadau dros dri diwrnod (13, 14 ac 15 Mai 2025). Yn dilyn y cyfweiliadau, ystyriodd y panel asesu fod pedwar ymgeisydd y gellir eu penodi.

¹³ Llywodraeth Cymru: Penodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Pecyn Gwybodaeth i ymgeiswyr, Chwefror 2025.

Ein barn ni

Nodwn fod y broses recriwtio wedi denu 35 ymgeisydd, ac y penderfynwyd yn y pen draw y gellid penodi pedwar ohonynt. Mae hwn yn ymateb cadarnhaol i'r ymarfer recriwtio.

3. Yr ymgeisydd a ffefrir

21. Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 16 Mehefin 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet mai Vernon Everitt yw'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â rôl Cadeirydd newydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru.¹⁴

22. Ar hyn o bryd, mae Vernon Everitt yn dal sawl swydd arall yn y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys y canlynol:

- Comisiynydd Trafnidiaeth, Manceinion Fwyaf (Mawrth 2022 hyd heddiw);
- Cadeirydd, Transport for Greater Manchester (Ebrill 2024 hyd heddiw);
- Uwch gynghorydd trafniadaeth strategol, Teneo Consultants (Ebrill 2023 hyd heddiw);
- Cyfarwyddwr Anweithredol, Trafnidiaeth Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Prosiectau Mawr TrC (2019 hyd yma).¹⁵

23. Mae wedi gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn y gorffennol, gan gynnwys fel uwch aelod o'r Pwyllgor Gweithredol, Transport for London, am 14 mlynedd. Mae wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn Transport for London, gan gynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr, Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg a Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, London Underground a TfL Engineering.¹⁶

24. Yn ei ymateb i'r holiadur cyn penodi, nododd y meini prawf y mae'n ystyried y dylid eu defnyddio i farnu ei berfformiad:

¹⁴ Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig [Cadeirydd newydd i Fwrdd Trafnidiaeth Cymru: yr ymgeisydd a ffefrir gan Ysgrifennydd y Cabinet](#), 16 Mehefin 2025.

¹⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: [CV yr ymgeisydd a ffefrir](#).

¹⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: [CV yr ymgeisydd a ffefrir](#).

- *“Have I delivered against the promises and strategic plans of Welsh Government for transport across the country and has this been recognised and felt by people in every part of Wales?”*
- *Have I been able to help Welsh Ministers secure greater investment in our transport infrastructure and services from UK Government?*
- *Do we have an increasingly highly capable, responsive and effective TfW executive team with strength in depth and clear succession plans for the future development of the organisation?”¹⁷*

4. Gwrandawriad cyn penodi

25. Ar 19 Mehefin 2025, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Vernon Everitt. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.¹⁸ Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet, am sicrhau bod y Pwyllgor wedi cael y cyfle i gynnal y gwrandawriad hwn.

26. Cyn y gwrandawriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru y dogfennau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- Papur briffio ar y broses¹⁹
- Y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr²⁰
- CV Mr. Everitt²¹ a datganiad cefnogol²².

27. At hynny, gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd a ffefrir lenwi holiadur, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Ein barn ni

Mae gan TrC nifer sylweddol a chynyddol o gyfrifoldebau, ac mae'n wynebu heriau sylweddol o ran eu cyflawni. Fel y tynnwyd sylw ato gan y Pwyllgor mewn gwaith craffu diweddar, mae'r rhain yn cynnwys yr angen i ddarparu masnachfaint bysiau a'r Metro, yn ogystal â gwelliant parhaus i berfformiad

¹⁷ Gweler Atodiad A.

¹⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: [Cofnod y Trafodion 19 Mehefin 2025](#).

¹⁹ Llywodraeth Cymru: [Papur briffio ar gyfer y gwrandawriad cyn penodi](#).

²⁰ Llywodraeth Cymru: [Penodi Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Pecyn Gwybodaeth i ymgeiswyr](#), Chwefror 2025.

²¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: [CV yr ymgeisydd a ffefrir](#).

²² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: [Datganiad ategol yr ymgeisydd a ffefrir](#).

rheilffyrdd.²³ Mae TrC wedi tyfu'n gyflym, gan beri heriau o ran rheoli a gosod cyllidebau, tra bod cyflawni'r "Rhwydwaith T" yn gofyn am newid sylweddol mewn diwylliant o fewn y sefydliad, er mwyn symud i ddull aml-foddol. Mae angen i hyn i gyd fynd law yn llaw â pherfformiad gwell a mesuradwy ar draws grŵp TrC, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, a gwerth am arian.

Yn y cyd-destun hwn, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dewis ymgeisydd, fel ei benodiad a ffefrir, sy'n cyfuno profiad o redeg rhwydweithiau trafndiaeth mawr yn Llundain a Manceinion Fwyaf, â nifer o flynyddoedd o brofiad fel cyfarwyddwr anweithredol TrC.

Mae gan Mr. Everitt nifer o ddiddordebau o fewn trafndiaeth. Nodwn ei rôl barhaus yn Transport for Greater Manchester, a fydd yn sicr o ddod â gwybodaeth a phrofiad perthnasol. Cawsom sicrwydd gan Mr Everitt y byddai'n gallu rheoli ei amser yn briodol, a nodwyd ei fod wedi dweud y byddai'n rhoi blaenoriaeth ddyledus i'w rôl yn TrC. At hynny, fe wnaethom holi ynghylch ei ddiddordebau eraill, yn enwedig gydag ymgynghorwyr Teneo, a chawsom ein sicrhau gan eglurder ei ddull o ymdrin ag unrhyw wrthdaro posibl; pwysleisiodd nad oedd unrhyw wrthdaro o'r fath wedi codi yn ystod y cyfnod y bu'n gyfarwyddwr anweithredol yn TrC.

Mae gan Mr. Everitt drosolwg cynhwysfawr a strategol o'r heriau yn TrC. Mae'n cydnabod pryderon y Pwyllgor ynghylch hyd a lled yr heriau y mae'n eu hwynebu. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod profiad Mr. Everitt, yn enwedig fel Comisiynydd Trafnidiaeth ym Manceinion Fwyaf, yn golygu bod ganddo brofiad uniongyrchol o'r prosiectau lluosog sy'n cael eu rheoli gan TrC, yn enwedig masnachfreinio bysiau, her a ddisgrifiodd Mr Everitt fel un sy'n hanfodol.

At hynny, nododd y Pwyllgor gydnabyddiaeth Mr. Everitt o faterion y mae'r pwyllgor hwn wedi'u hamlygu o'r blaen ynghylch yr angen i gyflawni ar draws holl gymunedau Cymru, sicrhau cyllid strategol hirdymor a'i barodrwydd i gyfathrebu â phobl Cymru.

Nid oes prinder heriau i TrC. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd a ffefrir gan Ysgrifennydd y Cabinet, Mr. Everitt, mewn sefyllfa dda i gadeirio Trafnidiaeth Cymru wrth iddo wynebu'r heriau hyn. Bydd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at roi her gref i Trafnidiaeth Cymru a'i Gadeirydd newydd yn ystod gweddill tymor y Senedd hwn.

²³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: [Craffu ar waith Trafnidiaeth Cymru](#).

5. Casgliadau'r Pwyllgor

28. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo ymgeisydd dewisol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru.

Atodiad A: Ymateb i'r holiadur

Cefndir personol
A oes gennych chi unrhyw gysylltiadau busnes neu ariannol, neu ymrwymadau eraill, a allai arwain at wrthdaro buddiannau wrth gyflawni eich dyletswyddau, neu a allai effeithio ar yr amser y gallwch chi ei roi i'r rôl?
I am Transport Commissioner for Greater Manchester and Chair of the Executive Board of Transport for Greater Manchester. I also provide periodic strategic-level transport advice to a consultancy company called Teneo. I do not envisage that any of these positions will give rise to conflict of interest and none have arisen during my near 6 year service as a non-executive director of Transport for Wales. In keeping with TfW's established policies and procedures around effective corporate governance, should any actual or perceived conflict of interest arise then I would declare it and appropriate mitigation would be put in place, including recusal from any involvement in that particular matter. Having spent time working in Wales over the past six years, I have developed a strong understanding of the country's transport network. I believe there to be a clear convergence of interest between all parts of Wales and the North of England as we all work to grow the size of our economies, increase productivity and better support opportunity and prosperity for our urban and rural communities. In addition to a focus on improving local transport in every part of Wales, there is in my view enormous scope for Wales and the 'Northern Arc' regions of England to work together cross-border to optimise our local plans and connectivity and win the case being made to the UK Government for greater investment in transport infrastructure and services in Wales. Reform of the UK rail industry and bus franchising in Wales provide the platform to advance this case. I can guarantee that none of my other roles will affect my ability to dedicate all the time necessary to discharging my obligations and responsibilities as Chair of Transport for Wales.
A ydych erioed wedi dal swydd neu ymgymryd â gweithgaredd a allai fwrw amheuaeth ar eich didueddrwydd gwleidyddol?
No.
Sut y cawsoch eich recriwtio: a gawsoch eich annog i wneud cais ac, os felly, gan bwy?
I was approached by a recruitment agency acting on behalf of the Welsh Government as part of the open recruitment process.
Eglurwch sut mae eich profiad hyd yma wedi eich paratoi i gyflawni eich cyfrifoldebau newydd.
My experience has led to a deep understanding of how better transport improves the ability of people to live better lives. Transport is not an end in

Cefndir personol

itself. It is about people, places and prosperity and my job would be to ensure that Transport for Wales listens and continues to face outwards to deliver for the people, communities and businesses of every part of the country. Safe, frequent, reliable and affordable transport is a core enabler of sustainable economic growth, higher productivity, access to homes, jobs and education, better health outcomes, tackling inequality and greater opportunity for all families. We must never lose sight of that.

This understanding has been formed from extensive leadership-level experience in running and shaping integrated transport networks, and in particular changing organisational cultures to make them customer focused. This experience has embraced bus (where in Greater Manchester we have recently successfully completed franchising as part of building the integrated Bee Network), tram, train, active travel and roads, delivering positive results for the communities we serve. A central element of this has been my executive and Board level roles in motivating, supporting and constructively challenging the performance of executive teams. My experience of this in transport has been derived from my time working at:

- Transport for London (2007-2022)

- Greater Manchester Combined Authority & Transport for Greater Manchester (2022-date)

- and as a non-executive director of Transport for Wales (2019-date)

This experience has taught me the vital importance of proactive and inclusive chairing, listening carefully to staff and stakeholders and actively drawing on the diverse perspectives and talents of executives, non-executives, local authorities and community groups, businesses, the third sector and many others. A chair must first and foremost listen to those the organisation serves and then ensure that the organisation delivers for them.

My experience has also taught me how to lead an organisation by example, being visible, proactive and working alongside people at all levels – from front line staff, teams working on major projects to the Executive Team. I also have deep personal commitment to delivering Welsh Government's ambitious plans for transport encapsulated by the vision of 'one network, one timetable, one ticket, one team' and have spent my time as a non-executive director at TfW helping to shape this. This vision is inspiring and my track record in this industry demonstrates how I can help lead TfW to make these plans a practical reality.

Cyflawni'r rôl
Beth fydd eich blaenoriaethau allweddol yn eich rôl newydd?
The role profile for the Chair of Transport for Wales sets out Welsh Government's requirements and expectations of the Chair in leading TfW's Board to shape the strategy, vision, purpose, delivery capability and culture of the organisation. I will go about discharging those responsibilities in a prioritised way by setting a clear agenda for the Board. This will include the successful delivery of mission critical work, on time and to budget, on bus franchising and completion of major projects and programmes such as the South Wales Metro and Network North Wales (including North Wales Metro), all supported by ensuring TfW's financial stability and sustainability and leading the further development and strengthening of its organisational capability. This extensive and exciting agenda will draw on the many talents of the Board and build on the success delivered under the leadership of the existing Chair. A key priority for me will be to engage with TfW's stakeholders to listen and deepen my understanding of what they need from transport and to communicate the benefits being delivered by TfW to the people, communities and businesses of Wales. Under my leadership, the Board will be proactive in offering frank professional advice to Ministers on the development and delivery of better transport in every part of Wales and shaping/making the case to UK Government for greater investment in the country's transport services and infrastructure. There is a huge amount of work to be delivered immediately on all this given bus franchising, rail reform and the need to engage with stakeholders cross-border as well as those in Wales itself to secure the necessary resources to enable economic growth and greater prosperity.
Pa feini prawf y dylid eu defnyddio i gloriannu eich perfformiad dros eich cyfnod yn y swydd?
- Have I delivered against the promises and strategic plans of Welsh Government for transport across the country and has this been recognised and felt by people in every part of Wales? - Have I been able to help Welsh Ministers secure greater investment in our transport infrastructure and services from UK Government? - Do we have an increasingly highly capable, responsive and effective TfW executive team with strength in depth and clear succession plans for the future development of the organisation?

Y sefydliad
Pa feini prawf y dylid eu defnyddio i gloriannu perfformiad TrC yn ei gyfanrwydd?

Y sefydliad

Transport for Wales is measured on a range of published service delivery, financial and customer service measures agreed with Welsh Government and we should be measured on the overall performance against these.

Furthermore, Transport for Wales should be judged on its delivery of its business plan – to time and budget – driven from its remit from the Welsh Government. This plan sets out the key future deliverables including the completion of the South Wales Metro, Network North Wales (including North Wales Metro), bus reform, rail reform and the practical delivery of the T Network – ‘one network, one timetable, one ticket, one team’. These improvements will deliver a step change in transport connectivity between all parts of Wales.

Performance should also be judged against delivery of other vital ‘in flight’ work, including:

- New trains entering service: 77% of Transport for Wales’ fleet now consists of new trains and this will materially increase over time
- Simpler and more integrated fares and ticketing to improve customer experience, including further delivery of more convenient ‘pay as you go’ travel and integrating payment across different forms of transport.

Beth, yn eich barn chi, yw’r risgiau allweddol i gyflawni amcanion TrC?

- Continuing to evolve TfW’s culture and capability to approach transport in a truly integrated and multi-modal way, putting the people of every part of Wales at the heart of its work
- A lack of adequate resources to deliver the ambitious plan for transport in Wales
- Making TfW services genuinely resilient to major threats such as climate change and cyber attack
- Not taking sufficient advantage of advances in technology – eg AI as a network planning tool – to help drive rapid change for an affordable price
- Not delivering on our ambitious ridership and revenue growth targets which are our key means by which we decrease net-subsidy for Welsh Government
- A further major shock such as that imposed by Covid

Transport for Wales’ T Network vision is ambitious and requires continued culture change to ensure the delivery of a truly integrated and multi-modal network. This has already begun and a relentless focus on continuing this shift is key to delivery.

As well as an internal cultural change, we need to take the public with us as we encourage more people to use public transport and active travel such as walking, cycling and wheeling. We will win further public support for this by improving the transport options available to people, keeping fares as low as possible, investing in providing good travel information and improving the accessibility of transport at stations and stops across the country.

Y sefydliad

Beth, yn eich barn chi, yw prif lwyddiannau a phrif fethiannau TrC? Pa wersi y gellir eu dysgu o'r methiannau?

Successes

-Public Service Ethos: as an innovative, publicly-owned and accountable not-for-profit organisation, TfW operates with a clear public service mandate with an emphasis on reducing transport poverty and improving mobility for all. While operating efficiently, its focus is on people rather than profit

-Better and increasingly more reliable services: leading to strong revenue growth on rail and bus (eg Traws Cymru) – TfW has seen recovery and growth in passenger numbers, with growth faster than the UK rail industry average. During 2024/25, TfW achieved £175 million in rail passenger revenue, a 17.5% increase on the previous year, with train journeys up by one-fifth to over 30 million

-Better experience for customers: more frequent services, new trains and buses, better accessibility, simplified ticketing and better travel information, contributing to increased ridership and revenue

-Lower cost base: since taking ownership of rail, TfW has operated with a lower cost base due to tighter financial controls, direct control over procurement and operations and retaining all revenues to reinvest in running and further improving services

-South Wales Metro/Core Valley Lines: tackling the impact on the CVL project of COVID and resultant external price inflation to re-set the programme and now be on the cusp of delivering transformational change for the people of the region

-Network North Wales: delivery of an ambitious vision and plan to rapidly improve transport throughout the region. TfW has established strong cross-border and cross-agency partnerships with Network Rail, UK Government, local authorities and English transport bodies to deliver a metro-style service across North Wales

-Innovation: TfW is pioneering the deployment of tri-mode Class 756 trains on the South Wales Metro which switch between electric, battery, and diesel power and Wales is the first part of the UK outside London to introduce convenient 'tap and go' ticketing for customers. Wales is also blazing a trail with the work to franchise bus services as a way of integrating all forms of transport for the convenience of passengers.

Y sefydliad

-Industrial Relations: TfW has engaged constructively with trade unions through transparent communication and a shared commitment to public service delivery. Social partnership continues to be a key priority for TfW.

Failures

-Delivery of new train fleet into service: There has been an underestimation of the difficulties of introducing new fleet. Lessons can be learned on the contracting model, inherited from the former operator, which has made change and negotiation incredibly difficult and complex.

-Improvements across every part of Wales: while ambitious plans are in place bringing benefits to the whole country, more can be done to ensure improvements are delivered and felt across all parts of Wales. It is vital that all communities within North, South, East and West Wales feel the benefits of investment in transport improvements.

-Organisational development: this is not a 'failure' but an 'opportunity' – we need a renewed focus on continuing to build TfW's organisational capability as it takes accountability for more things – eg bus franchising. TfW's CEO is an exceptionally talented leader with deep personal commitment and strong delivery. There is a highly capable senior team. Naturally, there are opportunities to further build capability at all levels to reflect the evolution of TfW's role and responsibilities.

-Reflecting the communities TfW serves: progress has been made in improving the representation of the communities and people of Wales in TfW and this needs to continue to be an area of focus.

-Major events: significant improvements have been made in supporting and delivering major events, including those held at the Principality Stadium, international football and Eisteddfod. Again, there needs to be continued focus on delivery of transport provision for events of National and regional importance given their central place in the economy and culture of Wales.

The key lessons are:

1. Set realistic and transparent targets: taking into account the complexity of the supply chain and challenging funding and financing environment.
2. Enhance transparency and accountability: by continuing to develop regularly published performance data and improving stakeholder engagement to listen and communicate what is being delivered to the benefit of people, communities and businesses in every part of Wales.
3. Strengthen cross-Government collaboration: forge closer alignment and engagement between TfW, the Welsh Government and UK authorities such as Shadow Great British Railways given the critical importance of these

Y sefydliad
relationships to securing additional investment and funding in transport in Wales.
Beth yw eich asesiad o broffil cyhoeddus ac enw da'r sefydliad?
TfW is increasingly recognised for its ambitious vision to create a sustainable, integrated transport network across Wales. This includes rail, bus and active travel and aligns with broader Welsh Government goals. While there is much more to do, TfW has improved transparency around its business plan and performance. TfW has also engaged in public summits and stakeholder events, such as the fantastic 2025 Public Transport Summit in Wrexham to foster broader dialogue and collaboration. TfW has also taken steps to improve gender and ethnic diversity in its workforce to make further progress towards better reflecting the communities it serves. TfW's strategic vision and social values are generally respected, but inherited infrastructure and historic under investment—especially in rail services—have been detrimental to public perception. This is changing, and is likely to continue to improve further as more new trains and the benefits of the North and South Wales Metros are felt by communities and businesses across the country.